**Rhif: WG45289**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd - Ymgynghoriad

Rydym am glywed eich barn am ein Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mehefin 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion : 18 Medi 2023

OGL © Crown copyright 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

## Trosolwg

Nod yr ymgynghoriad hwn yw clywed eich barn am ddrafft y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.

## Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 14 wythnos. Anfonwch eich sylwadau erbyn 18 Medi 2023, drwy un o'r dulliau canlynol:

Llenwch y ffurflen ar-lein

https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd

Lawrlwythwch ein ffurflen ymateb a'i e-bostio ar ôl ei llenwi i

https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd

ebost: homelessnesspolicy @llyw.cymru

Lawrlwythwch ein ffurflen ymateb a'i phostio ar ôl ei llenwi i:

Yr Is-adran Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori rhithwir i arwain a chefnogi ymatebwyr drwy'r ymgynghoriad.

Ymatebwch trwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu lawrlwythwch ein ffurflen ymateb. Wrth ymateb, dywedwch a ydych yn ateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad. Cynhwyswch:

- eich enw,
- eich swydd (os yn gymwys) a;
- enw'r Sefydliad (os yn gymwys).

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol

Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: homelessnesspolicy@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: https://www.gov.wales/ending-homelessness-outcomes-framework

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn ac a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y byddant yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau at y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith dadansoddi ar yr ymatebion i ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwnnw ar ei rhan. Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd arnom o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hynny'n cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata a gedwir mewn ffyrdd eraill gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i wneud y canlynol:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'i defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cysylltu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys

1. Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn? .......... 5
2. Y Cefndir .......... 6
3. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd ? .......... 7
4. Sut caiff y Fframwaith Canlyniadau ei ddefnyddio? .......... 9
5. Y Fframwaith Canlyniadau a gynigir ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd .......... 10
6. Cwestiynau'r Ymgynghoriad .......... 12
7. Ymateb i'r Cwestiynau'r Ymgynghoriad .......... 38

## 1. Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

1.1 Diben yr ymgynghoriad hwn yw clywed eich barn am y Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (EHOF)

1.2 Pwrpas bras Fframwaith Canlyniadau yw cynnig ffordd strwythuredig o ddiffinio a mesur y canlyniadau y bwriedir i raglen, polisi neu fenter esgor arnynt ac i adrodd arnynt. Mae'n nodi'r canlyniadau neu'r newidiadau y mae rhaglen/polisi/menter yn anelu at eu cyflawni, yn ogystal â'r dangosyddion neu'r mesurau a ddefnyddir i fesur cynnydd at y canlyniadau hynny.

1.3 Datblygwyd yr EHOF i roi cyfeiriad strategol clir ar gyfer atal digartrefedd a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru trwy nodi'r canlyniadau tymor hir a ddymunir a dangos y cynnydd at gyflawni'r canlyniadau hynny dros amser.

1.4 Mae'r EHOF wedi'i gynllunio yn benodol i ddangos effaith y camau lefel uchel a nodir yn y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a'r hyn sy'n cael ei wneud i'w cymryd. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021. Gweler **Adran 2: Y Cefndir** am fwy o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu.

1.5 **Mae Llywodraeth Cymru yn eich gwahodd i ymateb i'r cwestiynau ymgynghori, i'n helpu i i lunio'r Fframwaith Canlyniadau terfynol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.**

## 2. Y Cefndir

2.1 Ystyr digartrefedd yw sefyllfa pan nad oes gan berson lety neu pan nad yw ei ddaliadaeth yn sicr. Gall digartrefedd, neu'r risg ohono, gael effaith enbyd ar unigolion a theuluoedd, gan effeithio ar eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol, eu hynysu rhag eu cymunedau lleol a chael effaith negyddol ar gymdeithas.

2.2 Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth o Gymru lle mae gan bawb gartref diogel sy'n diwallu ei anghenion ac sy'n cynnal bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus. Cymru lle rydym yn gweithio gyda'n gilydd i atal digartrefedd a phan na ellir ei atal, sicrheir ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac na fydd yn digwydd eto.

2.3 Cydnabyddir na all tai ar eu pen eu hunain atal digartrefedd na'n helpu i wireddu'r weledigaeth hon, a bod gan bob gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru ei ran i'n helpu i wireddu'r weledigaeth.


### *Y Rhaglen Lywodraethu*

**2.4** Yn fersiwn ddiweddaraf Llywodraeth Cymru o'i Rhaglen Lywodraethu 2021-2026, ceir ymrwymiad i: **Ddiwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym.**

### *Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*

2.5 Mae datblygu'r Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn gam allweddol (Cam 13) yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Nod y Cynllun Gweithredu yw rhoi cyfarwyddyd lefel uchel ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Sail y Cynllun Gweithredu yw Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2019 ac argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd o arbenigwyr yn ei adroddiadau ym mis Gorffennaf 2020. Dangosir yr esblygiad hwn yn **Niagram 1** isod:

**Diagram 1: Datblygiad y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd**



## 3. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd ?

3.1 Ar hyn o bryd nid oes Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

3.2 Er bod Llywodraeth Cymru yn casglu data i fonitro maint digartrefedd yng Nghymru, trwy Wybodaeth Reoli Fisol ac Ystadegau Digartrefedd Statudol blynyddol a gyhoeddir, nid oes fframwaith penodol sy'n dod â'r data sydd ar gael ynghyd mewn fformat hygyrch sy'n canolbwyntio'n llwyr ar y gwaith sy'n cael ei wneud i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

3.3 Felly, nod y Fframwaith Canlyniadau hwn ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yw rhoi cyfeiriad strategol cliriach ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gwna hynny drwy nodi'r canlyniadau hirdymor a ddymunir a dangos y cynnydd at gyflawni'r canlyniadau hynny dros amser, hynny trwy 'ddangosyddion data' sydd wedi'u dewis a'u cynnig i fesur y gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r canlyniadau a gynigir yn yr EHOF.

***Datblygiad y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd***

3.4 Ym mis Tachwedd 2021, o dan gylch gwaith yr EHNAB, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd i gyd-gynhyrchu'r EHOF a gyflwynir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Roedd y grŵp (gweler **Atodiad A**) yn cynnwys rhanddeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys aelodau o'r EHNAB ac aelodau hanesyddol y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Gydol ei waith, gwnaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategol ddiweddaru'r EHNAB ar brif gamau datblygu'r EHOF.

3.5 Ers ei sefydlu, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi bod yn fforwm i aelodau drafod a chytuno ar y canlyniadau tymor hir a ddymunir ar gyfer pobl Cymru. Seiliwyd eu trafod gan y themâu allweddol, yr egwyddorion polisi a'r camau y cytunwyd arnynt - fel y'u diffinnir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd - sydd eu hangen ar draws y gwasanaethau digartrefedd a tai, y trydydd sector a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru i roi diwedd ar ddigartrefedd.

3.6 Ochr yn ochr â hynny, cafodd y canlyniadau manwl hyn a gynigiwyd eu hystyried gan ddau Grŵp Gorchwyl a Gorffen arall sydd hefyd yn atebol i'r EHNAB:

- Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailgartrefu Cyflym wedi cynghori ar Ganlyniad Strategol 2: Byrhoedlog.
- Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu wedi cynghori ar Ganlyniad Strategol 4: Y Gweithlu

3.7 Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd wedi bod yn gyfrifol hefyd am nodi ystod o 'ddangosyddion data' i fesur pob canlyniad manwl. Awgrymwyd 'rhestr hir' o ddangosyddion data ganddynt. Cafodd honno ei mireinio wedi hynny gan swyddogion polisi

Llywodraeth Cymru a fu'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr ystadegol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ffynonellau data eraill a dichonoldeb casglu data yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y 'dangosyddion data' a gynigir yn hysbysu ac yn mesur cynnydd pob canlyniad manwl yn gywir.

**Prif egwyddorion y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd**

3.8 Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi mabwysiadu'r prif egwyddorion canlynol ar gyfer datblygu'r EHOF.

Dylai'r canlyniadau:

- fod yn gyson â phrif themâu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd
- cael eu grwpio'n ganlyniadau cyffredinol 'Strategol' gyda chanlyniadau manwl yn sail iddynt
- fod yn ganlyniadau tymor hir neu 'derfynol' ar gyfer pobl Cymru
- Wedi'u mynegi mewn iaith syml a phlaen ac mewn ffordd bositif

Dylai'r 'dangosyddion data':

- fod â ffocws a bod yn benodol, er mwyn sicrhau ein bod yn mesur agweddau pwysicaf digartrefedd i ddeall y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad â phob canlyniad manwl
- cyfateb i'w maint, gan adlewyrchu lefel y cymhlethdod sydd ynghlwm wrth fesur canlyniad manwl
- defnyddio ffynonellau data cadarn os medrir, fel ystadegau swyddogol neu wybodaeth reoli
- fod yn seiliedig ar fesuriadau data sy'n bod os medrir, ond gallant fod yn seiliedig ar fesuriadau data i'w casglu yn y dyfodol os nad ydynt yn bod eto.

## 4. Sut caiff y Fframwaith Canlyniadau ei ddefnyddio?

4.1 Gan ddibynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ein gobaith yw cyhoeddi'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn yr Gaeaf 2023 gyda'n hymateb i'r ymgynghoriad hwn.

### *Cynlluniau gweithredu*

4.2 Rydym yn cynnig cychwyn rhoi'r Fframwaith Canlyniadau ar waith ddechrau 2024 trwy gyhoeddi adroddiad 'llinell sylfaen' i adlewyrchu'r 'dangosyddion data' terfynol y cytunir arnynt ac sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd.

4.3 Wedi hynny, rydym yn bwriadu diweddaru'r adroddiad 'llinell sylfaen' bob blwyddyn i fesur y cynnydd at gyflawni'r canlyniadau manwl.

### *Adolygu a Datblygiad yn y Dyfodol*

4.4 Bydd y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn rhoi naratif clir o'r gwaith rydym wedi'i wneud hyd y pwynt hwnnw i gyflawni'r canlyniadau tymor hir. Bydd felly yn sail i gynigion polisi yn y dyfodol ac yn ein helpu i weld ble nad oes data wedi'u casglu a datrys hynny.

4.5 Bydd yr EHOF felly'n esblygu dros amser, i sicrhau ei fod yn berthnasol i'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo a'r data sydd ar gael ac yn ymateb i hynny. Bydd yr EHOF yn cael ei adolygu ar ôl y diwygiadau polisi a deddfwriaethol sydd yn yr arfaeth, yn unol â'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026, i sicrhau bod ein canlyniadau'n parhau i ddangos ein cynnydd at roi diwedd ar ddigartrefedd ledled Cymru.

## 5. Y Fframwaith Canlyniadau a gynigir ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd


***Cysyniad y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd***

5.1 O ystyried ehangder y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a'r ystod eang o ganlyniadau sy'n rhan o'n nod tymor hir i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, rydym wedi trefnu'r Fframwaith Canlyniadau fel a ganlyn:

- **Canlyniadau Strategol** – Nodi'r canlyniadau cyffredinol bras sy'n adlewyrchu prif themâu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.
- **Canlyniadau Manwl** – Fel sail i bob Canlyniad Strategol, ceir ystod o ganlyniadau manwl i ddiffinio'r canlyniadau penodol a ddymunir ar gyfer pobl Cymru.
- **Dangosyddion data** – Mae gan bob canlyniad manwl o leiaf un 'dangosydd data' fydd yn cael ei ddefnyddio i fesur cynnydd dros amser at gyflawni'r canlyniad.

Dangosir hyn yn **Niagram 2** isod:

**Diagram 2: Darlun cysyniadol o'r modd y datblygwyd y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd**




5.2 O ystyried pwysigrwydd sicrhau bod y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn ateb y diben ac yn nodi prif ganlyniadau hirdymor ein nod cyffredinol i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, **cyhoeddir y Fframwaith Canlyniadau llawn ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd** https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd **ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon.** Mae'n nodi'r Canlyniadau Strategol a'r canlyniadau manwl sy'n sail i bob Canlyniad Strategol. Mae hefyd yn cyflwyno'r 'dangosyddion data' sydd wedi'u dewis a'u cynnig i fesur cynnydd dros amser at gyflawni pob canlyniad manwl. **Dylid darllen y ddogfen honno ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon.**

5.3 **Ceisir eich barn am y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.** Dylid ystyried y Fframwaith yn ei gyfanrwydd, ond rydym hefyd yn croesawu eich barn am bob un o'r Canlyniadau Strategol unigol a gynigir (cwestiwn ymgynghori 1), a'r canlyniadau manwl ar gyfer pob un (cwestiynau ymgynghori 2 a), b) ac c). Lle bo'n berthnasol, gofynnwyd cwestiynau penodol am y 'dangosyddion data' a gynigir.

5.4 Mae'r adran nesaf yn cyflwyno'r cwestiynau ymgynghori, ochr yn ochr â'r rhesymau pam y mae'r Canlyniadau Strategol wedi'u cynnig. Mae hefyd yn esbonio pam y mae'r canlyniadau manwl wedi'u cynnig ar gyfer eu Canlyniadau Strategol.

## 6. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

6.1 Atebwch y cwestiynau a restrir ar ddiwedd pob tabl. Mae croeso i chi ychwanegu gwybodaeth neu sylwadau os dymunwch. Rydym yn gofyn **10 cwestiwn ymgynghori** i gyd:

- 1 cwestiwn am y Canlyniadau Strategol;
- 1 chwestiwn am y canlyniadau manwl
- 5 cwestiwn sy'n gofyn am farn benodol ar agweddau ar y canlyniadau manwl a'r 'dangosyddion data'
- 2 gwestiwn am y Gymraeg
- 1 cwestiwn i gofnodi sylwadau ychwanegol

***Cwestiwn ymgynghori ar y Canlyniadau Strategol***

6.2 Rydym yn cynnig bod y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd yn cael ei rannu'n **chwe Chanlyniad Strategol cyffredinol.** Gweler isod.

| Y Canlyniad Strategol | | Rhesymau |
|---|---|---|
| 1 | **Prin:**<br>**Mae pobl yn cael eu hatal rhag profi digartrefedd yn y lle cyntaf mor gynnar â phosibl** | I adlewyrchu ein hymrwymiad i atal pobl rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf a sicrhau bod y sylw iawn yn cael ei roi ar y meysydd iawn ar gyfer ei atal.<br>*Mae hyn yn gyson â'r thema gyffredinol a'r egwyddor polisi yn y Cynllun Gweithredu* mai'r mesurau atal cynharaf yw'r mwyaf effeithiol, y mwyaf cost-effeithiol, a'r rhai y dylid eu dewis gyntaf bob amser. |
| 2 | **Byrhoedlog:**<br>**Mae pobl yn cael ymateb cyflym ac effeithiol os ydyn nhw'n profi digartrefedd** | I adlewyrchu ein hymrwymiad i drawsnewid y system i roi pwyslais ar 'ailgartrefu'n gyflym' fel bod pobl sy'n profi digartrefedd yn cael eu symud i gartref sefydlog cyn gynted â phosibl a'u bod yn cael y lefel briodol o gymorth i wneud hynny.<br>*Mae hynny'n gyson â'r thema gyffredinol yn y Cynllun Gweithredu y bydd ffocws cenedlaethol ar ailgartrefu'n gyflym* yn arwain at Gymru lle mae digartrefedd yn beth byrhoedlog. |
| 3 | **Ddim yn digwydd eto:**<br>**Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref** | I adlewyrchu ein hymrwymiad i ganolbwyntio ar yr unigolyn – sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu.<br>*Mae hyn yn gyson â thema gyffredinol yn y Cynllun Gweithredu* |
| 4 | **Gweithlu:** | I adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu gweithlu cymorth ym maes digartrefedd a thai sy'n gadarn ac |


| | | |
|---|---|---|
| | **Datblygu gweithlu cymorth ym maes digartrefedd a thai sy’n gadarn ac sy’n cael ei werthfawrogi, ai gydnabod am ei arbenigedd** | sy’n cael ei werthfawrogi, a’i gydnabod am ei arbenigedd.<br>*Mae hyn yn gyson â Cham 5 yn y Cynllun Gweithredu.* |
| **5** | **Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus:**<br>**Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio’n effeithiol mewn ffordd sy’n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma i roi diwedd ar ddigartrefedd** | I adlewyrchu ein huchelgais bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru’n cydweithio’n effeithiol i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno.<br>*Mae hyn yn gyson ag egwyddor polisi yn y Cynllun Gweithredu bod mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater i wasanaethau cyhoeddus – yn hytrach na ‘thai’ yn unig.* |
| **6** | **Canolbwyntio ar yr Unigolyn:**<br>**Mae gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau mynediad cyfartal i bawb sy’n diwallu anghenion eu pobl leol ac sydd wedi’i deilwra yn ôl anghenion yr unigolyn.** | I adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael cymorth a bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwerthfawrogi profiadau byw pobl.<br>*Mae hyn yn gyson ag egwyddor polisi yn y Cynllun Gweithredu y dylai pob gwasanaeth sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd yr hyn a wna a gweithio gyda’i gilydd mewn ffordd sy’n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma*. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn 1** | Mae’r Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn nodi **chwe chanlyniad strategol cyffredinol:**<br><br>1. Prin<br>2. Byrhoedlog<br>3. Ddim yn digwydd eto<br>4. Gweithlu<br>5. Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus<br>6. Canolbwyntio ar yr unigolyn<br><br>Ar sail prif egwyddorion y fframwaith (yn adran tri), i ba raddau ydych chi’n cytuno mai’r meysydd uchod yw’r ffocws strategol cywir ar gyfer y fframwaith<br><br>Os ydych yn 'cytuno'n gryf/cytuno' - Esboniwch pam eich bod yn credu mai'r canlyniadau strategol hyn yw'r meysydd cywir i'w cynnwys yn y Fframwaith | **[Cytuno'n gryf**<br><br>**Cytuno**<br><br>**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**<br><br>**Anghytuno**<br><br>**Anghytuno’n gryf]** |

| | | |
|---|---|---|
| | Os ydych yn 'anghytuno'n gryf / anghytuno' – Esboniwch pa ganlyniadau strategol na ddylid eu cynnwys; neu pa rai eraill y dylid eu cynnwys.<br>*Ystyriwch y Prif Egwyddorion yn Adran 3 wrth gynnig syniadau.* | |

***Cwestiynau ymgynghori ar y Canlyniadau Manwl a'r Dangosyddion Data***

6.3 Ar y tudalennau a ganlyn, rydym yn cyflwyno pob un o'r **24 canlyniad manwl** a'r **44 dangosydd data**. Mae pob canlyniad manwl wedi'i rifo o dan bob canlyniad strategol. Mae pob dangosydd wedi cael llythyren wrth bob canlyniad manwl.




6.4 Hoffem glywed eich barn am bob un o'r canlyniadau manwl hyn – fe welwch y cwestiynau o **dudalen 32 ymlaen.** Rydym yn gofyn cwestiynau penodol hefyd am y canlyniadau manwl a rhai o'r 'dangosyddion data' os ydym am glywed eich barn amdanynt.

**Dangosyddion i fesur cynnydd**

6.5 Mae'r 'dangosyddion data' a gynigir yn rhai dros dro a gallent newid yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Canlyniadau Strategol a'r canlyniadau manwl cysylltiedig.

6.6 Fel yr esbonnir o **dudalen 6** ymlaen y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd, bernir mai'r dangosyddion data a gynigir yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fesur cynnydd at gyflawni pob un o'r canlyniadau manwl. Ond, mae'n bwysig cofio y gallai rhai dangosyddion data newid o ganlyniad i'r cynnig i ddiwygio deddfwriaeth yn y maes hwn. Rydym wedi gwneud hynny'n glir lle bo gofyn.

6.7 Nid yw rhai o'r 'dangosyddion data' a gynigir yn cael eu cofnodi eto. Nodir hynny yng ngholofn *Ffynhonnell y dangosydd* yn y Fframwaith Canlyniadau atodedig https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd. Lle gellir mesur y dangosyddion yn rhannol, rydym wedi disgrifio ffynonellau data eraill, er mwyn gallu eu mesur yn fras. Lle nad oes

data ‘arall’ ar gael, rydym wedi disgrifio’r dangosyddion data hyn fel rhai y byddwn am eu casglu yn y dyfodol, wrth i ragor o waith ar gasglu data am ddigartrefedd a thai gael ei wneud.

*Canlyniadau Strategol, Canlyniadau Manwl a Dangosyddion Data*

| **PRIN: Mae pobl yn cael eu hatal rhag profi digartrefedd yn y lle cyntaf mor gynnar â phosibl** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Canlyniad Manwl** | **Rhesymau** | **Dangosydd Data** | **Ffynhonnell y dangosydd data** |
| **1. Llai o aelwydydd yn profi digartrefedd yn y lle cyntaf** | Dyma'n nod yn y pen draw. Os bydd llai o bobl ac aelwydydd yn profi digartrefedd yn y lle cyntaf, yna byddwn yn gwybod ein bod yn symud at y nod o wneud digartrefedd yn beth prin. | (a) Nifer yr aelwydydd sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai digartrefedd | Yn fras, gan ddefnyddio data Digartrefedd Statudol, trwy gyfrif y nifer unigryw o aelwydydd sy'n cyflwyno'u hunain fel rhai digartref. |
| | | (c) Canran yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag mynd yn ddigartref ar ôl cael cymorth awdurdodau lleol | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi |
| | | (c) Nifer (a chanran) yr aelwydydd oedd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod ac oedd yn derbyn cymorth y ddyletswydd atal (adran 66) a ddaeth i ben o dan adran 67 (2) pan gawsant eu hunain yn ddigartref. | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi |
| | | (d) Nifer o aelwydydd yn profi digartrefedd cudd, rhifau absoliwt a fesul 10,000 o aelwydydd | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn; mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol |
| | | (e) Nifer (a chanran) yr aelwydydd sy'n nodi'r rhesymau canlynol fel eu prif reswm am golli eu cartref sefydlog diwethaf (adran 73):<br>➢ Rhiant ddim bellach yn barod neu'n gallu cynnig llety<br>➢ Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim bellach yn barod neu'n gallu cynnig llety<br>➢ Perthynas â phartner yn chwalu: | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ➢ Heb drais<br>➢ Treisgar<br>➢ Treisgar ac aflonyddu:<br>➢ Cymhellion hiliol<br>➢ Oherwydd crefydd/cred<br>➢ Oherwydd ailbennu rhywedd (hunaniaeth rhywedd)<br>➢ Oherwydd hunaniaeth/cyfeiriadedd rhywiol<br>➢ Oherwydd anabledd<br>➢ Am reswm arall<br>➢ Morgais heb ei dalu (ailfeddiannu'r cartref neu golli'r cartref mewn ffordd arall)<br>➢ Rhent heb ei thalu:<br>➢ Cartrefi sector cymdeithasol<br>➢ Cartrefi sector preifat<br>➢ Colli llety rhent neu lety clwm<br>➢ Gadael carchar<br>➢ Mewn sefydliad neu ofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, byddin ac ati)<br>➢ Methu fforddio cartref presennol<br>➢ Cartref presennol yn anaddas<br>➢ Arall (gan gynnwys digartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o fod dramor, cysgu allan neu mewn hostel) | |
| | | Cysylltiad â Phrif Amcan 1 y Grant Cymorth Tai: Mae pobl wedi gallu cysylltu â gwasanaethau cymorth tai (cyngor, gwybodaeth, cymorth) ac yn fwy gwybodus am | Mae fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai yn ymdrin â'r dangosydd hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | y cymorth sydd ar gael a/neu yn gwybod ble i fynd am gymorth | |
| | | Cysylltiad â Phrif Amcan 4 y Grant Cymorth Tai: Mae pobl yn gallu rheoli'u cartref/llety ac mae hynny'n eu rhwystro rhag mynd yn ddigartrefedd neu orfod defnyddio gwasanaethau cyhoeddus mwy costus (e.e. iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol) | Mae fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai yn ymdrin â'r dangosydd hwn. |
| **2. Caiff grwpiau uwch eu risg eu nodi a mesurau eu rhoi yn eu lle fel bod llai o bobl yn y grwpiau hynny'n profi digartrefedd** | Mae ein ffocws ar 'grwpiau mewn perygl' yn sicrhau bod pobl yn cael cymorth ataliol fel bod llai ohonynt yn profi digartrefedd. | (a) Nifer y bobl sydd ag un neu fwy o nodweddion 'risg' y mae cymorth wedi'i roi ar ei gyfer (wedi'i rannu yn ôl adrannau 66, 73, a 75) | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi'n rhannol |
| **3. Mae plant a phobl ifanc mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael eu nodi'n gynnar a'u hatal rhag profi digartrefedd** | Os gallwn atal digartrefedd ymhlith plant a phobl ifanc, rydym yn atal digartrefedd ymhlith cenedlaethau'r dyfodol ac yn torri'r cylch digartrefedd ailadroddus. | (a) Nifer y plant dibynnol o dan 16 oed ac iau sy'n byw mewn llety dros dro yn ôl math o lety | Gall yr wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan* gofnodi'r data hyn. Ond bydd angen gwella'r ansawdd cyn cyhoeddi'r data yn ôl math o lety dros dro ac ar lefel Awdurdod Lleol. |
| | | (b) Nifer y bobl 16-24 oed sy'n byw mewn llety dros dro yn ôl math o lety<br>➢ Nifer y bobl ifanc 16-17 oed sy'n byw mewn llety dros dro<br>➢ Nifer y bobl ifanc 18-24 oed sy'n byw mewn llety dros dro | Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ➢ Nifer y bobl ifanc 16-17 oed sy’n gadael gofal sy’n byw mewn llety dros dro<br>➢ Nifer y bobl ifanc 18-24 oed sy’n gadael gofal sy’n byw mewn llety dros dro | |
| **4. Neb yn ddigartref ar y stryd** | Mae ein hymrwymiad i’r uchelgais hwn yn golygu rhoi diwedd ar begwn eithaf digartrefedd – digartrefedd ar y stryd | (a) Nifer y bobl sy’n ddigartref ar y stryd bob mis, fesul awdurdod lleol (absoliwt a fesul 100,000 o’r boblogaeth) | Data wedi’u cofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* |
| | | (b) Nifer y bobl NEWYDD sy’n ddigartref ar y stryd fesul awdurdod lleol | Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* |
| **5. Mae cymorth ar gael i sicrhau nad yw tor-berthynas neu chwalu teulu yn arwain at ddigartrefedd** | Tor-berthynas a chwalfa deuluol yw prif achosion digartrefedd yng Nghymru ac maent wedi cynyddu ers y pandemig. Gellir atal digartrefedd trwy helpu’r rheini sy’n profi tor-berthynas neu chwalfa deuluol | (a) Nifer (a chanran) yr aelwydydd sy’n nodi’r rhesymau canlynol pam fod digartrefedd yn cael eu bygwth arnynt (adran 66) neu/a eu bod wedi colli eu cartref sefydlog diwethaf (adran 73)<br>➢ Rhiant neu berthnasau eraill neu ffrindiau ddim bellach yn fodlon neu’n gallu cynnig llety<br>➢ Perthynas â phartner yn chwalu – treisgar a heb drais<br>➢ Rhiant ddim bellach yn fodlon neu’n gallu cynnig llety<br>➢ Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim bellach yn fodlon neu’n gallu cynnig llety | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6. Cyflenwad digonol a mynediad at gartrefi fforddiadwy a diogel o ansawdd da i ddiwallu'r angen am dai.** | Rhaid wrth gyflenwad digonol o dai addas er mwyn gallu diwallu'r angen am dai. Rhaid i lety fod yn fforddiadwy er mwyn atal cylchoedd digartrefedd ac i gynnal cymunedau cynaliadwy. Dylid nodi rhwystrau i gael y cartrefi hyn, a'u chwalu. | (a) Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai | Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru yn eu cofnodi |
| | | (a) Cyflenwad tai<br>➢ Anheddau newydd wedi'u cwblhau<br>➢ Maint yr unedau/nifer yr ystafelloedd gwely<br>➢ Yr angen am dai | Cofnodir ffynhonnell data'r dangosydd hwn yn nata amcangyfrifon y stoc anheddau, y data Anheddau Newydd sydd wedi'u cwblhau a data amcangyfrifon yr Angen am Dai. |
| | | (c) Nifer yr aelwydydd ar y cofrestrau tai | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn; mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol |
| | | (d) Canran yr aelwydydd digartref sydd â tenantiaethau cymdeithasol a phreifat | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi |
| | | (e) Canran yr holl gartrefi sy'n bodloni safonau ansawdd tai cymdeithasol a thai rhent preifat. | Bydd ffurflenni Safonau Ansawdd Tai Cymru yn cofnodi elfen tai cymdeithasol y dangosydd hwn a defnyddir data procsi sy'n defnyddio sgoriau EPC i gofnodi'r elfen rhentu preifat (tan y cyhoeddir yr arolwg nesaf o Gyflwr Tai Cymru). |
| **7. Mae gan bawb yng Nghymru yr adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu eu hanghenion** | Mae'r canlyniadau hyn yn ymwneud â ffactorau strwythurol ehangach a all effeithio ar ddigartrefedd ledled | **Dangosydd 18** Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn. | Cofnodir y canlyniadau trwy gyfeirio at y ffactorau strwythurol ehangach a gynhwysir yn Dangosyddion Llesiant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymru. Gellir eu croes-gyfeirio â dangosyddion penodol yn Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru. Felly, ni chynigir dangosyddion Newydd yn y maes hwn. | **Dangosydd 19** Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol<br><br>**Dangosydd 10** Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen | Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru. |
| **8. Mae gan bawb yng Nghymru gyfle i gael swydd deilwng** | | **Dangosydd 16** Canran y bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol<br><br>**Dangosydd 21** Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith | |
| **9. Mae pawb yng Nghymru yn gallu cael y gofal iechyd cynradd a chymdeithasol sydd eu hangen arnynt** | | **Dangosydd 2:** Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus<br><br>**Dangosydd 24** Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt | |

| BYRHOEDLOG: Mae pobl yn cael ymateb cyflym ac effeithiol os ydyn nhw'n profi digartrefedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Canlyniad Manwl** | **Rhesymau** | **Dangosydd Data** | **Ffynhonnell y dangosydd data** |
| **1. Mae pobl sy'n profi digartrefedd yn gallu cael cartref sefydlog cyn gyflymed â phosibl** | Mae hyn yn gyson â'r uchelgais i sicrhau bod pobl sy'n profi digartrefedd yn gallu cael cymorth i symud i gartref sefydlog yn gyflym. | (a) Faint o amser rhwng rhoi pobl mewn llety dros dro gyntaf a'u symud i lety sefydlog (yn ôl categori hyd) | Mesurir y bwlch gan ddefnyddio'r ffigurau data Digartrefedd Statudol (trwy ddefnyddio'r amser a dreulir mewn llety dros dro) |
| | | (b) Nifer y bobl sy'n cael eu rhoi mewn llety addas tymor hir yn y cyfnod | Mae'r data hyn ar gael yn yr wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* Ond bydd angen gwella'r ansawdd cyn eu cyhoeddi yn ôl math o lety dros dro ac ar lefel Awdurdod Lleol. |
| | | (c) Faint o amser rhwng asesu bod pobl yn ddigartref a'u symud i lety sefydlog. | Nid oes ffynonellau sy'n cofnodi'r dangosydd hwn, ac mae'n annhebygol a fydd unrhyw rai nes bod data ar lefel achosion unigol ar gael. Mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol |
| | | (d) Faint o amser rhwng nodi bod pobl yn ddigartref ar y stryd a'u symud i lety sefydlog | Nid oes ffynonellau sy'n cofnodi'r dangosydd hwn, ac mae'n annhebygol a fydd unrhyw rai nes bod data ar lefel achosion unigol ar gael. Mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2. Neb yn profi digartrefedd dros gyfnod tymor hir** | Mae faint o amser y mae person yn profi digartrefedd yn cynyddu'r effeithiau negyddol a niweidiol – ein huchelgais felly yw sicrhau bod digartrefedd, os na ellir ei osgoi, ond yn para ychydig amser. | (a) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir (absoliwt a'r gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd) | Ceir procsi ar gyfer y dangosydd hwn trwy ddefnyddio data Digartrefedd Statudol, trwy gyfrif nifer yr aelwydydd sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro am gyfnod tymor hir |
| | | (b) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir ar y stryd (absoliwt a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth) | Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* |
| **3. Pobl yn gallu cael at gymorth amlasiantaethol wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion unigol pan fo gofyn.** | Bydd hyn yn cefnogi'r uchelgais i sicrhau ymateb sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth ar drawma i sicrhau bod pobl yn gallu cael at bob cymorth perthnasol i'w helpu i gael a chadw tenantiaeth. | (a) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o brofi digartrefedd | Ceir procsi ar gyfer y dangosydd hwn trwy ddefnyddio data Digartrefedd Statudol, trwy gyfrif nifer yr aelwydydd sy'n cyflwyno'u hunain ar gyfer cymorth (adran 66 ac adran 73). |
| | | (b) Prif Ganlyniad 2 y Grant Cymorth Tai – Mae pobl wedi gallu cael llety â chymorth brys neu dros dro | Cofnodir y dangosydd hwn yn fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai |
| | | (c) Prif Ganlyniad 3 y Grant Cymorth tai – Mae pobl yn gallu cael a chadw tenantiaeth mewn cartref sefydlog addas. Ni fydd data canlyniadau'r grant cymorth tai yn gallu dweud beth oedd yr amser cyfeirio. | Cofnodir y dangosydd hwn yn fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai |

| DDIM YN DIGWYDD ETO: Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Canlyniad Manwl** | **Rhesymau** | **Dangosydd Data** | **Ffynhonnell y dangosydd data** |
| **1. Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref** | Dylid helpu unigolion sydd wedi profi digartrefedd o'r blaen rhag mynd yn ddigartref eto. Ein nod yn y pen draw yw torri'r cylch digartrefedd. | (a) Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd cymorth o dan y ddyletswydd cymorth (adran 73 neu adran 75) a gyflwynodd cais digartrefedd arall yn ddiweddarach (o fewn **X** mis) (absoliwt, fesul 10,000 o aelwydydd ac fel cyfran o'r holl geisiadau) | Cofnodir y data gan fesur procsi o'r wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* Ond bydd angen gwella'r ansawdd cyn eu cyhoeddi. |
| | | (b) Nifer y bobl sy'n profi digartrefedd tymor hir ar y stryd | Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* |
| **2. Mae pobl yn cael cymorth sy'n briodol i'w anghenion i gadw eu tenantiaethau** | Mae cymorth wedi'i deilwra i gadw tenantiaethau yn atal pobl rhag profi digartrefedd neu fod mewn perygl o'i brofi neu ei ailbrofi. | Cysylltiad â Phrif Ganlyniad 3 y Grant Cymorth Tai: Mae pobl yn gallu cael cartref sefydlog addas a'i gadw | Cofnodir y dangosydd hwn yn fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai |
| | | (a) Nifer y bobl sy'n profi digartrefedd am yr eildro | Cofnodir y data gan fesur procsi o'r wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* Ond bydd angen gwella'r ansawdd cyn eu cyhoeddi. |
| | | (b) Nifer y bobl sy'n profi digartrefedd ar y stryd am yr eildro | Posibilrwydd ei gofnodi yn yr wybodaeth reoli fisol *Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (c) Cyfradd cadw tenantiaethau ar draws yr holl brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru | Cofnodir yn uniongyrchol gan Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru. |
| | | (d) Nifer y bobl y daeth eu tenantiaeth Tai yn Gyntaf i ben oherwydd<br>➢ Carchar<br>➢ Marwolaeth<br>➢ Symud i leoliad gofal iechyd/cymdeithasol<br>➢ Dewis gadael<br>➢ Symud i denantiaeth nad yw gyda Tai yn Gyntaf<br>➢ Troi allan<br>➢ Arall/Ddim yn gwybod | Cofnodir yn uniongyrchol gan Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru. |
| **3. Mae pobl yn gallu cael y cartref cywir yn y lle cywir** | Mae cael y cartref cywir sy'n diwallu anghenion y person neu'r teulu yn eu helpu i gadw'r denantiaeth. | Cysylltiad â Phrif Ganlyniad 3 y Grant Cymorth Tai: Mae pobl yn gallu cael cartref sefydlog addas a'i gynnal | Cofnodir y dangosydd hwn yn fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai |
| | | (a) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl cael cymorth (Anghenion isel/Canolig) | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn; mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol. |
| | | (b) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl cael cymorth tai dwys fel Tai yn Gyntaf (Anghenion Uchel) | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data'r dangosydd hwn, felly defnyddir dangosydd o Tai yn Gyntaf gan Cymorth Cymru fel procsi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (c) Nifer a chanran y bobl sydd wedi aros mewn llety â chymorth sy’n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl dechrau’r denantiaeth (Anghenion Dwys) | Nid oes ffynhonnell yn cofnodi data’r dangosydd hwn; mynegir felly bod uchelgais i’w casglu yn y dyfodol. |
| | | (d) Canran y bobl sy’n fodlon â’u hardal fel lle i fyw ynddo | Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru yn eu cofnodi |

| **GWEITHLU: Datblygu gweithlu cymorth ym maes digartrefedd a thai sy'n  gadarn ac sy'n cael ei werthfawrogi a'i gydnabod am ei arbenigedd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Canlyniad Manwl** | **Rhesymau** | **Dangosydd Data** | **Ffynhonnell y dangosydd data** |
| **1. Mae staff cymorth ym maes tai a digartrefedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cydnabod am eu sgiliau a'u profiad.**<br><br>**2. Mae staff cymorth ym maes tai a digartrefedd yn alluog ac yn hyderus ac yn cael y gefnogaeth a'r amser, i ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma**<br><br>**3. Mae staff cymorth ym maes tai a digartrefedd yn cael eu recriwtio a'u cadw i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru am dai.** | Mae'n hanfodol bod y gweithlu tai a digartrefedd yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi, a bod yr arfau a'r sgiliau cywir yn cael eu rhoi iddo i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol hyn mewn sefyllfaoedd sydd o dan bwysau mawr. Rhaid iddynt gynnal ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddynt a lle gellir, ei wella er mwyn iddynt allu sicrhau bod pobl sy'n profi digartrefedd neu mewn perygl o'i brofi yn cael profiad positif ac yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. | **CADWR LLE: Mae dangosyddion data'n cael eu datblygu wrth ddatblygu'r arolwg** | Arolwg blynyddol newydd Llywodraeth Cymru o brofiadau gweithlu cymorth ym maes tai a digartrefedd |

| YMATEB GWASANAETHAU CYHOEDDUS: Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol mewn ffordd sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma i roi diwedd ar ddigartrefedd<br><br>Ceir bylchau yn y Canlyniad Strategol hwn am fod adolygiad yn cael ei gynnal o'r ddeddfwriaeth. | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Canlyniad Manwl** | **Rhesymau** | **Dangosydd Data** | **Ffynhonnell y dangosydd data** |
| **1. Mae pobl sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o'i brofi yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn cael eu trin ag urddas a pharch gan wasanaethau cyhoeddus eraill.** | Amcan y canlyniad hwn yw nodi beth mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud trwy gydweithio i atal digartrefedd gan alinio'r holl wasanaethau cymorth a ph'un a yw'r bobl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y gwasanaethau cyhoeddus hynny. | **Ymchwilir i hyn fel rhan o Raglen Ymchwil Llywodraeth Cymru i Dai ac Adfywio** | Arolwg/Ymchwil KAS |
| **2. Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau gan wasanaethau cyhoeddus eraill i ddigartrefedd.** | Canolbwyntir ar gydweithio i sicrhau bod pobl, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion cymhleth, yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt. Drwy hynny, gellir atal digartrefedd a | (a) Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau gan wasanaethau cyhoeddus i ddigartrefedd:<br>➢ pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid<br>➢ pobl ifanc sy'n gadael gofal<br>➢ pobl sy'n gadael y lluoedd arfog rheolaidd<br>➢ pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth am anhwylder meddwl fel claf mewnol, a | Posibilrwydd ei gofnodi ar ffurflen ddata Digartrefedd Statudol, ychwanegiadau data i gofnodi'n llawn y dangosydd data fydd yn cael ei ystyried. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chynnal y cymorth i denantiaethau. | ➢ pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned<br>➢ | |
| **3. Mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cydnabod eu rôl o ran nodi'r rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, sicrhau bod mesurau ataliol yn eu lle a bod ganddynt lwybrau atgyfeirio priodol.** | Mae'r maes hwn yn dangos y gwaith a'r gweithgarwch partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus. Byddant yn hanfodol i atal digartrefedd. | **Ymchwilir i hyn fel rhan o Raglen Ymchwil Llywodraeth Cymru i Dai ac Adfywio** | Arolwg/Ymchwil KAS |

| **CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN: Mae gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau mynediad cyfartal i bawb sy'n diwallu anghenion eu pobl leol ac sydd wedi'i deilwra yn ôl anghenion yr unigolyn.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Canlyniad Manwl** | **Rhesymau** | **Dangosydd Data** | **Ffynhonnell y dangosydd data** |
| **1. Mae pobl yn cael cymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn ac yn cael eu trin ag urddas a pharch.** | Mae'n bwysig bod profiad pobl o ddefnyddio gwasanaethau yn un positif a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu trwy'r amser ac yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol. | **Ymchwilir i hyn fel rhan o Raglen Ymchwil Llywodraeth Cymru i Dai ac Adfywio** | Arolwg/Ymchwil KAS |
| **2. Nid yw pobl sy'n wynebu rhwystrau penodol (oherwydd nodweddion gwarchodedig, profiadau blaenorol ac ati) yn profi mwy na'u cyfran o ddigartrefedd** | Ein nod yw bod gwasanaethau ar gael i bawb yn gyfartal, a'u bod yn diwallu anghenion/ gofynion yr unigolion. Rydym am chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag derbyn gwasanaethau neu sy'n eu rhoi o dan anfantais o ran y gwasanaethau maen nhw'n eu cael. | (a) Nifer y bobl sydd ag un neu fwy o nodweddion 'risg' y maent wedi cael cymorth ar ei gyfer (yn ôl adrannau 66, 73 a 75) | Ffigurau data Digartrefedd Statudol yn eu cofnodi'n rhannol |
| | | (b) Hyd yr amser mewn llety dros dro yn ôl grŵp (*dangosydd interim*) | Nid oes data ar gyfer mesur y dangosydd hwn, fel y mae. Ond gallwn ei amcangyfrif trwy ddefnyddio data amser mewn llety dros dro yn ôl rhyw, sy'n cael eu cofnodi yn y data Digartrefedd Statudol |
| | | (c) Faint o amser rhwng asesu bod pobl yn ddigartref a'u symud i lety sefydlog yn ôl grŵp amrywiaeth. | Nid oes data ar gyfer mesur y dangosydd hwn. Mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (d) Nifer y bobl o bob grŵp amrywiaeth sy'n profi digartrefedd tymor hir | Nid oes data ar gyfer mesur y dangosydd hwn. Mynegir felly bod uchelgais i'w casglu yn y dyfodol. |
| **3. Pobl sydd wedi byw profiadau sy'n dylanwadu ar bolisi ac arferion Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a darparwyr gwasanaethau** | Mae'n bwysig bod pobl sydd wedi byw profiadau yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael rhannu eu profiadau os dyna'u dymuniad, mewn ffordd fydd yn eu barn nhw yn cael canlyniad positif. | **Ymchwilir i hyn fel rhan o Raglen Ymchwil Llywodraeth Cymru i Dai ac Adfywio**<br><br>Arolwg blynyddol o'r rheini sydd â phrofiadau byw – gellir bwydo'r canlyniadau fel dangosyddion. | Arolwg/Ymchwil KAS ar gyfer unigolion sydd wedi byw profiadau |

**Cwestiynau ymgynghori (parhad)**

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn 2a** | **A oes canlyniadau manwl eraill y dylem yn eich barn chi eu cynnwys? (darllenwch y diffiniad o ganlyniadau manwl ar dudalennau 16 – 31)**<br>Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y dylem eu cynnwys.<br>*Rydym ni'n awgrymu'ch bod yn ystyried y Prif Egwyddorion yn Adran 3 wrth gynnig canlyniadau newydd.* | **[Oes neu Nac oes, Ddim yn gwybod]** |
| **Cwestiwn 2b** | **A oes unrhyw ganlyniadau manwl sydd wedi'u cynnig y dylem yn eich barn chi eu tynnu o'r rhestr?**<br>Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y dylem eu tynnu o'r rhestr. | **[Oes neu Nac oes, Ddim yn gwybod]** |
| **Cwestiwn 2c** | **A oes canlyniadau manwl sydd wedi'u cynnig y gallem eu gwella?**<br>Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y gallem eu gwella.<br>*Rydym ni'n awgrymu'ch bod yn ystyried y Prif Egwyddorion yn Adran 3 wrth gynnig gwelliannau.* | **[Oes neu Nac oes, Ddim yn gwybod]** |
| **Cwestiwn 3** | Cydraddoldeb, gwrth-wahaniaethu a hawliau dynol yw sail ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd sy'n cydnabod bod rhai grwpiau yn fwy tebygol o lawer o wynebu anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac ymyleiddio fel rhwystrau.<br>Rydym wedi ceisio sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu hynny trwy:<br>• **Prin**: Canlyniad Manwl 2 – *Nodi'r grwpiau sydd fwyaf mewn perygl a rhoi mesurau yn eu lle fel bod llai o bobl o'r grwpiau hyn yn profi digartrefedd* a<br>• Canlyniad Strategol 6: **Canolbwyntio ar yr Unigolyn,** a'r canlyniadau sy'n sail iddo.<br>I ba raddau y mae'r fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn? | **[Cytuno'n gryf**<br>**Cytuno**<br>**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**<br>**Anghytuno** |

| | | |
|---|---|---|
| | Os ydych yn ‘cytuno’n gryf / cytuno’ – esboniwch pam eich bod yn meddwl bod y fframwaith canlyniadau’n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?<br>Os ydych yn ‘anghytuno’n gryf / anghytuno’ – esboniwch pam eich bod yn meddwl nad yw’r fframwaith canlyniadau’n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn? | **Anghytuno’n gryf]** |
| **Cwestiwn 4** | **Ddim yn digwydd eto**: Canlyniad Manwl 1 – Mae *Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref* yn cysylltu â dangosydd data *(a) Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd cymorth o dan y ddyletswydd cymorth (adran 73) a gyflwynodd cais digartrefedd arall yn ddiweddarach (o fewn **X** mis) (absoliwt, fesul 10,000 o aelwydydd ac fel cyfran o’r holl geisiadau)*<br><br>**O ran profi digartrefedd am yr eildro, beth fyddai yn eich barn chi yn gyfnod priodol o amser (at ddiben cofnodi data) ar gyfer aelwyd rhwng derbyn cymorth o dan y ddyletswydd cymorth a chyflwyno cais digartrefedd arall (o fewn *X* mis)?**<br><br>i) 6 mis<br>ii) 12 mis<br>iii) Arall (manylwch)<br><br>Rhowch eich rhesymau am eich ateb. | **[Opsiynau i), ii) neu iii)]** |
| **Cwestiwn 5 (a)** | **Ddim yn digwydd eto:** Canlyniad Manwl 3 - *Mae pobl yn gallu cael y cartref cywir yn y lle cywir*<br><br>Rydym yn cydnabod bod hwn yn ganlyniad anodd ei fesur ac **nid** yw’r dangosyddion data a gynigir yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd mewn casgliadau data (er y gellir yn y cyfamser defnyddio procsi ar gyfer dangosydd b trwy ddefnyddio dangosydd tracio Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru).<br><br>**Nodwch wrth bob un o’r dangosyddion data posibl isod a ydych yn meddwl y gallem eu defnyddio i fesur cynnydd mewn cysylltiad â’r canlyniad?** | **[Ydw neu Nac ydw, Ddim yn gwybod]** |

| | | |
|---|---|---|
| | (a) Nifer a chanran y bobl sy’n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl derbyn cymorth (Anghenion Isel/Canolig) – Ydw, Nac ydw, Ddim yn gwybod<br>(b) Nifer a chanran y bobl sy’n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl cael cymorth tai dwys fel Tai yn Gyntaf (Anghenion Uchel) - Ydw, Nac ydw, Ddim yn gwybod<br>(c) Nifer a chanran y bobl sydd wedi aros mewn llety â chymorth sy’n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl dechrau’r denantiaeth (Anghenion Dwys) - Ydw, Nac ydw, Ddim yn gwybod<br><br>Os ydych wedi ateb ‘nac ydw’ i unrhyw un o’r dangosyddion a gynigir, esboniwch y rheswm am eich ateb gan gynnwys cynnig dangosydd data arall yn ei le*.<br>*Caiff syniadau newydd am ddata eu hystyried o safbwynt a ydynt ar gael ac a allen nhw fod ar gael | |
| **Cwestiwn 5 (b)** | Mae dangosyddion data (a), (b) ac (c) uchod yn cyfeirio at gadw tenantiaethau am gyfnodau o 6 mis.<br><br>**I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r cyfnod amser 6 mis hwn?** | **[Cytuno’n gryf**<br><br>**Cytuno**<br><br>**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**<br><br>**Anghytuno**<br><br>**Anghytuno’n gryf]** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn 6 (a)** | **Byrhoedlog**: Canlyniad Manwl 2 – Mae *Neb yn profi digartrefedd dros gyfnod tymor hir* yn cysylltu â dangosydd data *(a) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir (absoliwt a'r gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd)*<br><br>**Beth yn eich barn chi fyddai cyfnod amser addas ar gyfer mesur digartrefedd tymor hir?**<br><br>i) 6 mis<br>ii) 12 mis<br>iii) Arall (manylwch)<br><br>Rhowch eich rhesymau am eich ateb. | **[Opsiynau i), ii) neu iii)]** |
| **Cwestiwn 6 (b)** | **Byrhoedlog**: Mae Canlyniad Manwl 2 yn cysylltu â dangosydd data (*b) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir ar y stryd (absoliwt a'r gyfradd fresul 100,000 o'r boblogaeth)*<br><br>**Beth yn eich barn chi fyddai cyfnod amser addas ar gyfer mesur digartrefedd tymor hir ar y stryd?**<br><br>i) 3 mis<br>ii) 6 mis<br>iii) Arall (manylwch)<br><br>Rhowch eich rhesymau am eich ateb. | **[Opsiynau i), ii) neu iii)]** |
| **Cwestiwn 7** | **Ymateb Gwasanaeth Cyhoeddus:** Mae 'cadwyr lle' wedi'u nodi fel dangosyddion data posibl ar gyfer y dyfodol. | **[Oes, Nac oes, Ddim yn gwybod]** |

| | | |
|---|---|---|
| | **A oes dangosyddion data cyfredol sy'n bodoli y carech dynnu ein sylw atynt sy'n ymwneud ag ymateb ehangach y gwasanaethau cyhoeddus?**<br><br>Os 'oes' – esboniwch ba ddangosyddion data cyfredol? | |

| *Cwestiynau am y Gymraeg:* | |
|---|---|
| **Cwestiwn 8 (a)** | Carem glywed eich barn am effeithiau'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>**Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny?** |
| **Cwestiwn 8 (b)** | **Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif?** |
| **Cwestiwn 8 (c)** | **Sut y gellid lleihau'r effeithiau negyddol?** |
| **Cwestiwn 9** | Rydym am ddeall hefyd sut y gallai'r Fframwaith Canlyniadau a gynigir ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd gael ei lunio neu ei newid i gael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb gael effeithiau negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Sut y gallai'r fframwaith gael ei lunio neu ei newid i gael effaith bositif ar y Gymraeg?<br><br>**Ymateb:** |
| *Cwestiwn am yr ymateb cyffredinol:* | |
| **Cwestiwn 10** | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych ragor o adborth am y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, nodwch ef yma:<br><br>**Ymateb:** |

## 7. Ymateb i ‘r Cwestiynau’ r Ymgynghoriad

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i ymateb i'r cwestiynau isod https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd Gweler tudalen 2 o'r ddogfen hon **'Sut i ymateb'** am ragor o fanylion.

### CWESTIYNAU:

### Cwestiwn 1

Mae’r Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn nodi chwe chanlyniad strategol cyffredinol:

1. Prin
2. Byrhoedlog
3. Ddim yn digwydd eto
4. Gweithlu
5. Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus
6. Canolbwyntio ar yr unigolyn

**Ar sail prif egwyddorion y fframwaith (yn adran tri), i ba raddau ydych chi’n cytuno mai’r meysydd uchod yw’r ffocws strategol cywir ar gyfer y fframwaith**

- **Cytuno’n gryf**
- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- **Anghytuno**
- **Anghytuno’n gryf**

Os ydych yn 'cytuno'n gryf/cytuno' - Esboniwch pam eich bod yn credu mai'r canlyniadau strategol hyn yw'r meysydd cywir i'w cynnwys yn y Fframwaith

Os ydych yn 'anghytuno'n gryf / anghytuno' – Esboniwch pa ganlyniadau strategol na ddylid eu cynnwys; neu pa rai eraill y dylid eu cynnwys.

*Ystyriwch y Prif Egwyddorion yn Adran 3 o’r ddogfen hon wrth gynnig syniadau*

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 2a

**A oes canlyniadau manwl eraill y dylem yn eich barn chi eu cynnwys? (darllenwch y diffiniad o ganlyniadau manwl ar dudalennau 16 – 31)**

- **Oes**
- **Nac oes**
- **Ddim yn gwybod**

Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y dylem eu cynnwys.

*Rydym ni'n awgrymu'ch bod yn ystyried y Prif Egwyddorion yn Adran 3 o'r ddogfen hon wrth gynnig canlyniadau newydd.*

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 2b

**A oes unrhyw ganlyniadau manwl sydd wedi'u cynnig y dylem yn eich barn chi eu tynnu o'r rhestr?**

- **Oes**
- **Nac oes**
- **Ddim yn gwybod**

Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y dylem eu tynnu o'r rhestr.

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 2c

**A oes canlyniadau manwl sydd wedi'u cynnig y gallem eu gwella?**

- **Oes**
- **Nac oes**

- **Ddim yn gwybod**

Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y gallem eu gwella.

*Rydym ni'n awgrymu'ch bod yn ystyried y Prif Egwyddorion yn Adran 3 o'r ddogfen hon wrth gynnig gwelliannau*

## Cwestiwn 3

Cydraddoldeb, gwrth-wahaniaethu a hawliau dynol yw sail ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd sy'n cydnabod bod rhai grwpiau yn fwy tebygol o lawer o wynebu anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac ymyleiddio fel rhwystrau.

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu hynny trwy:

- Prin: Canlyniad Manwl 2 – *Nodi'r grwpiau sydd fwyaf mewn perygl a rhoi mesurau yn eu lle fel bod llai o bobl o'r grwpiau hyn yn profi digartrefedd* a
- Canlyniad Strategol 6: Canolbwyntio ar yr Unigolyn, a chanlyniadau sy'n sail iddo.

**I ba raddau y mae'r fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?**

- **Cytuno'n gryf**
- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- **Anghytuno**
- **Anghytuno'n gryf**

Os ydych yn 'cytuno'n gryf / cytuno' – esboniwch pam eich bod yn meddwl bod y fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?

Os ydych yn 'anghytuno'n gryf / anghytuno' – esboniwch pam eich bod yn meddwl nad yw'r fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?

## Cwestiwn 4

**Ddim yn digwydd eto**: Canlyniad Manwl 1 – Mae *Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref* yn cysylltu â dangosydd data *(a) Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd cymorth o dan y ddyletswydd cymorth (adran 73) a gyflwynodd cais digartrefedd arall yn ddiweddarach (o fewn **X** mis) (absoliwt, fesul 10,000 o aelwydydd ac fel cyfran o'r holl geisiadau)*

**O ran profi digartrefedd am yr eildro, beth fyddai yn eich barn chi yn gyfnod priodol o amser (at ddiben cofnodi data) ar gyfer aelwyd rhwng derbyn cymorth o dan y ddyletswydd cymorth a chyflwyno cais digartrefedd arall (o fewn *X* mis)?**

i) 6 mis
ii) 12 mis
iii) Arall (manylwch)

Rhowch eich rhesymau am eich ateb.

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 5 (a)

**Ddim yn digwydd eto:** Canlyniad Manwl 3 - *Mae pobl yn gallu cael y cartref cywir yn y lle cywir*

Rydym yn cydnabod bod hwn yn ganlyniad anodd ei fesur ac **nid** yw'r dangosyddion data a gynigir yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd mewn casgliadau data (er y gellir yn y cyfamser defnyddio procsi ar gyfer dangosydd b trwy ddefnyddio dangosydd tracio Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru).

**Nodwch wrth bob un o'r dangosyddion data posibl isod a ydych yn meddwl y gallem eu defnyddio i fesur cynnydd mewn cysylltiad â'r canlyniad?**

(a) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl derbyn cymorth (Anghenion Isel/Canolig)

- **Ydw**
- **Nac ydw**
- **Ddim yn gwybod**

(b) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl cael cymorth tai dwys fel Tai yn Gyntaf (Anghenion Uchel)

- **Ydw**
- **Nac ydw**
- **Ddim yn gwybod**

(c) Nifer a chanran y bobl sydd wedi aros mewn llety â chymorth sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl dechrau'r denantiaeth (Anghenion Dwys)

- **Ydw**
- **Nac ydw**
- **Ddim yn gwybod**

Os ydych wedi ateb 'nac ydw' i unrhyw un o'r dangosyddion a gynigir, esboniwch y rheswm am eich ymateb gan gynnwys cynnig dangosydd data arall yn ei le*.
*Caiff syniadau newydd am ddata eu hystyried o safbwynt a ydynt ar gael ac a allen nhw fod ar gael

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 5 (b)

Mae dangosyddion data (a), (b) ac (c) uchod yn cyfeirio at gadw tenantiaethau am gyfnodau o 6 mis.

**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cyfnod amser 6 mis hwn?**

- **Cytuno'n gryf**
- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- **Anghytuno**
- **Anghytuno'n gryf**

## Cwestiwn 6 (a)

**Byrhoedlog**: Canlyniad Manwl 2 – Mae *Neb yn profi digartrefedd dros gyfnod tymor hir* yn cysylltu â dangosydd data *(a) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir (absoliwt a'r gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd)*

**Beth yn eich barn chi fyddai cyfnod amser addas ar gyfer mesur digartrefedd tymor hir?**

i) 6 mis
ii) 12 mis
iii) Arall (manylwch)

Rhowch eich rhesymau am eich ateb.

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 6 (b)

**Byrhoedlog**: Mae Canlyniad Manwl 2 yn cysylltu â dangosydd data (*b) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir ar y stryd (absoliwt a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth)*

**Beth yn eich barn chi fyddai cyfnod amser addas ar gyfer mesur digartrefedd tymor hir ar y stryd?**

i) 3 mis
ii) 6 mis
iii) Arall (manylwch)

Rhowch eich rhesymau am eich ateb.

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 7

**Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus:** Mae 'cadwyr lle' wedi'u nodi fel dangosyddion data posibl ar gyfer y dyfodol.

**A oes dangosyddion data cyfredol sy'n bodoli y carech dynnu ein sylw atynt sy'n ymwneud ag ymateb ehangach y gwasanaethau cyhoeddus?**

- **Oes**
- **Nac oes**

- **Ddim yn gwybod**

Os ‘oes’ – esboniwch ba ddangosyddion data cyfredol ynglŷn ag ymateb ehangach y gwasanaeth cyhoeddus.

## Cwestiwn 8 (a)

Carem glywed eich barn am effeithiau’r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Beth yn eich barn chi fyddai’r effeithiau hynny?**

## Cwestiwn 8 (b)

**Sut y gellid cynyddu’r effeithiau positif?**

## Cwestiwn 8 (c)

**Sut y gellid lleihau’r effeithiau negyddol?**

## Cwestiwn 9

Rydym am ddeall hefyd sut y gallai’r Fframwaith Canlyniadau a gynigir ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd gael ei lunio neu ei newid i gael effeithiau positif neu fwy o

effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb gael effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sut y gallai'r fframwaith gael ei lunio neu ei newid i gael effaith bositif ar y Gymraeg?

**Ymateb:**

**Cwestiwn 10**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych ragor o adborth am y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, nodwch hwnnw yma:

**Ymateb:**

**Atodiad A – Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategol y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd**

| Grŵp/Sector a gynrychiolir | Sefydliad |
|---|---|
| Corff sy'n cynrychioli Darparwyr Cymorth ym maes Digartrefedd a Thai yng Nghymru | Cymorth Cymru |
| Corff sy'n cynrychioli Cymdeithasau Tai a'r Sector Tai Cymdeithasol yng Nghymru | Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Clwyd Alyn |
| Corff sy'n cynrychioli Llywodraeth leol yng Nghymru | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| Cynrychiolydd ymchwil i effeithiau digartrefedd | Centre for Homelessness Impact |
| Cynrychiolydd ymchwil academaidd i dai a digartrefedd | Prifysgol Caerdydd |
| Cynrychiolydd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd | Crisis |
| Cynrychiolydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru | Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |
| Cynrychiolydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynrychiolydd Darparwyr Cymorth i'r Digartref | Shelter Cymru |
| Cynrychiolydd Darparwyr Cymorth i'r Digartref | Llamau |
| Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru | Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg |
| Aelod annibynnol o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd | Aelod annibynnol |
| Hyrwyddo Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ym maes Tai | Tai Pawb |

| Swyddogion Llywodraeth Cymru |
|---|
| Pennaeth Polisi a Chyflawni Cymorth ar gyfer Tai |
| Uwch Reolwr Data Canlyniadau |
| Uwch Swyddog Atal Digartrefedd |
| Prif Ystadegydd - Pennaeth Ystadegau Tai a'r Amgylchedd |